

# Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

Effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy | Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid | Gwneud defnydd o wella geneteg | Rheoli ac adfer mawndir | Ymgorffori coed (gan gynnwys amaeth-goedwigaeth) | Rheoli coetir | Cylch rheoli gwrychoedd

## Rhwydwaith Arddangos



1

**Digwyddiad Arddangos Arfer Gorau ar y Fferm:** Amllder godro amrywiol, cyfle am fewnbynau llafur cynaliadwy ar fferm laeth

Geiriau allweddol: Effeithlonrwydd ynni

## Grwpiau Trafod



**23 cyfarfod yn trafod lleihau allyriadau ar y fferm ac atafaelu cymaint o garbon â phosibl**



**18** cyfarfod yn trafod Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid



**14** cyfarfod yn trafod gwelliannau i eneteg



**3** chyfarfod yn trafod effeithlondeb Ynni

Enghreifftiau:

DPAau cynhyrchu laeth megis oedran lloia cyntaf, mastitis, cloffni a marwolaethau lloi.

Maeth laeth, sut i gynllunio'r ddogn orau, pwysigrwydd samplu porthiant a lleihau'r protein a brynir.

Ffactorau perfformiad system biff gan gynnwys: Ffrwythlondeb, Lleihau Costau Mewnbnw ac Iechyd Anifeiliaid.

Bioddiogelwch defaid / polisi cwarantîn.

## Agrisgôp



Cynhaliwyd 7 cyfarfod Agrisgôp



- Cylch gwella iechyd anifeiliaid **50%**
- Effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy **25%**
- Ymgorffori coed (gan gynnwys amaeth-goedwigaeth) **12.5%**
- Gwneud defnydd o wella geneteg **12.5%**

Roedd grwpiau a fu'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yn canolbwyntio ar y canlynol:

Mae'r Grwpiau Gweithredu Cloffni yn mynd i'r afael â symudedd gwartheg trwy rannu gwybodaeth, syniadau a newidiadau ymarferol y gellir eu rhoi ar waith ar y fferm.

Mae grŵp o ffermwyr o fewn dalgylch yr afon Teifi yn awyddus i roi newidiadau ar waith gyda'r nod o wella ansawdd dŵr yr afon. Gall newidiadau posibl gynnwys creu pyllau, plannu sribedi byffro, plannu coed, ffensio glannau'r afon.

Archwilio opsiynau sy'n lleihau cost bwydo gwartheg biff a defaid.

## Mentora



**77.5 awr o fentora wedi'u darparu**



- Cylch rheoli gwrychoedd **36.1%**
- Rheoli coetir **34%**
- Ymgorffori coed (gan gynnwys amaeth-goedwigaeth) **24.7%**
- Cylch gwella iechyd anifeiliaid **4.1%**

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora yn cynnwys y canlynol:

“Trafodwyd manteision ac anfanteision tocio gwrychoedd.”

“Trafodaethau am grantiau bach, rheoli'r pridd, calch, cynlluniau creu coetiroedd.”

“Ymweliad â fferm, taith o gwmpas y fferm gan ganolbwyntio ar goetiroedd a rheoli coetiroedd. Trafodwyd coetiroedd gwell i Gymru, creu coetiroedd Glastir, adfer a grantiau bach.”

## Gwasanaeth Cynghori

Bod yn fwy effeithlon o ran defnyddio ynni/costau:



Cyngor gyda Chynllun Busnes



7 busnes wedi'u cefnogi

Cynllunio Iechyd Anifeiliaid



4 busnes wedi'u cefnogi

Cyngor ynghylch rheoli cynefinoedd a bioamrywiaeth



1 busnes wedi'u cefnogi

## Rhaglen Geneteg Defaid Cymru



Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth lle mai lleihau allyriadau ar y fferm drwy wella effeithlonrwydd yw'r ffocws sylfaenol.

	Nifer y digwyddiadau	Busnesau'n bresennol
Bridio ar gyfer ymwrthedd i lyngyr (Gweminar)	1	27
Dewis hyrddod trwy ddefnyddio Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV) (Gweminar)	1	24
Marchnata'ch hyrddod (Gweithdy digidol)	1	17
Gwella iechyd y ddiadell (Ar y fferm)	3	25

Mae gweithdrefnau samplu hefyd wedi bod ar waith yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys sganio braster cefn ŵyn a aned yn 2023 i lunio gwerthoedd bridio genomeg. Bydd ffurfio gwerthoedd bridio genomeg ar gyfer pob oen yn nodi'r anifeiliaid y rhagwelir y byddant yn perfformio'n dda, a bydd yn helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau cyfiawn wrth ddewis ŵyn benyw i'w cadw ar gyfer bridio yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ŵyn gwryw posibl y gellid eu gwerthu fel hyrddod yn y flwyddyn ganlynol.

Mae Bryn Hughes a Sarah Carr wedi bod yn ffermio'r daliad 541 hectar sy'n codi uwchlaw aber afon Mawddach ers mis Mawrth eleni, ar ôl symud o Sir Fynwy lle'r oeddent yn rhedeg diadell fasnachol ar lawr gwlad. Ni allai amgylchedd y ddwy fferm fod yn fwy gwahanol ond cred y cwpl mai geneteg yw'r allwedd i ddatblygu diadell sydd wedi addasu'n dda i'r amodau yn Sylfaen.

*"Ni allwn o reidrwydd newid yr amodau i weddu i'r defaid ar fferm fynydd, felly fe benderfynon ni ganolbwyntio ar gynhyrchu anifail sydd mewn sefyllfa well i lwyddo yn yr amgylchedd hwn, yn enwedig o ran ymwrthedd i afiechyd," eglura Sarah*

Mae'r erthygl lawn i'w gweld ar [wefan Cyswllt Ffermio](#):

Mae prosiect cofnodi perfformiad ar draws 107 o ddiadelloedd yng Nghymru wedi cychwyn gyda'r uchelgais o wella effeithlonrwydd diadelloedd defaid Cymru. Rydym yn ymweld ag un o'r ffermydd sy'n rhan o Raglen Geneteg Defaid Cymru newydd Cyswllt Ffermio.

## Sgiliau a Hyfforddiant



19	89	4	4
Cwrs ar gael	o geisiadau wedi eu cymeradwyo	wedi'u cwblhau	Busnes wedi'u cefnogi

Mae cysiau yn cynnwys Cymorth Cyntaf i Draed

## e-Ddysgu



	55 cwrs ar gael	30 wedi'u cwblhau	23 Busnes wedi'u cefnogi
Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid	35	20	15
Effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy	4	5	5
Gwneud defnydd o well geneteg	11	5	3
Ymgorffori coed (gan gynnwys amaeth-goedwigaeth)	2	—	—
Ymgorffori coed (gan gynnwys amaeth-goedwigaeth)	3	—	—

Mae'r cysiau sydd wedi'u hawlio'n cynnwys: Colostrwm a Lloi, Cloffni mewn Defaid

## Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



	Gweithdai sydd ar gael	Mynychwyr	Busnesau sydd wedi'u cefnogi
Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid	19	258	169

Roedd y gweithdai'n cynnwys: Gwella Perfformiad Ŵyn Wedi'u Diddfnu

Bydd meysydd allweddol a all helpu i sicrhau ffrwythlondeb gwartheg llaeth yn cael eu cynnwys mewn modiwl gweithdy newydd wedi'i achredu gan Lantra ac yn cael ei ychwanegu at raglen hyfforddiant iechyd a lles anifeiliaid Cyswllt Ffermio.

[Ychwanegwyd ffrwythlondeb gwartheg llaeth at weithdai hyfforddiant iechyd anifeiliaid Cyswllt Ffermio](#)

